

Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Cyllid Cyngor Cymuned Llandybïe a gynhaliwyd trwy gyfrwng Microsoft Teams ar ddydd Mercher, Medi 2^{il}, 2020 am 6.30 yh.

Presennol

Cynghorwyr	R.A. Davies	W.D. Evans	Mrs Ll. Latham
	D. Hopkins	Mrs J.E. Collins	Mrs K.D.L Davies

Ymddiheuriadau

Cynghorwyr	I. Rh. Llewelyn	Mrs C. Thomas
------------	-----------------	---------------

752.

Datgan Buddiant

Roedd yr Aelodau wedi datgan diddordeb yn yr amrywiol fudiadau y maent yn gysylltiedig â nhw, ac nid oeddent wedi cymryd rhan yn y trafodaethau a ddilynodd neu chwaith wedi pleidleisio ar y ceisiadau hyn. Llofnodwyd copïau o'r ffurflenni datgan, i'w cadw gan y Clerc. Derbyniwyd y datganiadau canlynol:

Y Cynghorydd R. A. Davies	Archwilydd Eglwys Plwyf Llandybïe Archwilydd Cymdeithas Henoed a Phensiynwyr Llandybïe Ysgrifennydd <i>Fields in Trust</i> Cymru, Llandybïe
Y Cynghorydd D. Hopkins	Ymddiriedolwr <i>Fields in Trust</i> Cymru, Llandybïe

753.

Ceisiadau am gymorth ariannol

Yn unol â Chofnod 693/95, aeth y Pwyllgor ati i ystyried y ceisiadau canlynol am gymorth ariannol, a phenderfynwyd **argymell** i'r Cyngor fel a ganlyn:

Ceisiadau cyffredinol a ystyriwyd yn unol â darpariaethau'r Ddeddf

Llywodraeth Leol 1972, Adran 137 ac Adran 145

Enw'r mudiad

Swm a argymhellir

B.L.A.S – Bywyd wedi strôc	£300
Clwb Henoed a Phensiynwyr Capel Hendre	£300
Côr Merched Llandybïe	£300
Cymdeithas Henoed a Phensiynwyr Llandybïe	£400
Eglwys y Plwyf, Llandybïe – cynnal a chadw goleuadau'r Nadolig	£200
Elusen Ambiwlans Awyr Cymru	£1000
Gofal mewn Galar - Cruse	£150
Grŵp 'Ifanc eu Hysbryd' Penygroes	£300
Marie Curie Sir Gaerfyrddin	£150

Argymhellion eraill:

Eglwys y Plwyf Llandybïe – gwasanaethu cloc y tŵr

Derbyniwyd cais am gymorth ariannol oddi wrth Eglwys y Plwyf, Llandybie ar gyfer gwasanaethu cloc y tŵr yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Eglwysi Plwyf 1957, Adran 2, ond fe ohiriwyd cynnig cymorth ariannol tan i gopi o wir gostau'r gwaith i gloc y tŵr gael ei dderbyn.

(ii) Mudiadau eraill:

Derbyniwyd ceisiadau oddiwrth y mudiadau a restrir isod, ond gwrthodwyd y rhain gan na chyflwynwyd unrhyw gyfrifon:

Y Lloffwr
Eisteddfod Rhyngwladol Llangollen

Ceisiadau gan neuaddau pentre, a ystyriwyd yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1976, Adran 19:

Neuadd Lesiant Penybanc	£625
Cymdeithas Lesiant Glowyr Cwmgwili	£625
Neuadd Goffa Gyhoeddus Llandybie	£1220

Ceisiadau gan glybiau chwaraeon / hamdden a ystyriwyd yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1976 (Darpariaethau Amrywiol), Adran 19:

Clwb Bowlio Mat Byr Penygroes	£200
Clwb Rygbi Llandybiyf – Adran Iau	£300

Argymhellion eraill:

Dim.

Ceisiadau am gynnal a chadw mannau chwarae a ystyriwyd yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1976 (Darpariaethau Amrywiol), Adran 19:

Cymdeithas Lesiant Glowyr Cwmgwili - gardd	£200
<i>Fields in Trust</i> Llandybie	£650

Ceisiadau am arian tuag at gynnal a chadw claddfeydd, a ystyriwyd yn unol â'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, Adran 214.

Saron, Capel y Bedyddwyr	
Capel Jerusalem, Penygroes	£300
Soar, Capel y Bedyddwyr, Llandyfan	£300
Eglwys Efyngylaidd Penygroes	£300
Eglwys Methodistiaid Calfinaidd Capel Hendre	£300
Eglwys Mynydd Sion, Penygroes	£300
Eglwys y Plwyf, Llandybie	£800
Capel yr Annibynwyr, Penygroes	£300

754.

Codi tâl am gyfleusterau sy'n eiddo i'r Cyngor.

Roedd y Cyngor Llawn eisoes wedi cytuno i beidio â chodi tâl am logi cyfleusterau yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol hyd at Fawrth 2021.

Argymhellwyd, oherwydd yr ansicrwydd sy'n bodoli ar hyn o bryd ynghylch Covid 19, bod y ffioedd a gytunwyd arnynt yn flaenorol yn cal eu codi yn ystod 2021/2022, ond y dylid eu hadolygu yn y Cyfarfod Cyllid a gynhelir yn Chwefror 2021.

Byddwn yn codi'r ffioedd a nodir isod yn ystod y cyfnod 1/4/2021 hyd at 31/3/2022.

Clwb Pêl-droed Ieuenctid Saron - £500 y flwyddyn am y defnydd o'r cae a'r cyfleusterau ym Mharc Saron.

Clwb Bowlio Llandybie - £3000 y flwyddyn am ddefnyddo'r grîn bowlio, ynghyd â chyfraniad o £500 y flwyddyn am ddefnyddio'r pafiliwn.

Clwb Tennis Llandybie – £200 y flwyddyn a chyfraniad o £500 y flwyddyn am ddefnyddio'r pafiliwn.

Bydd yr Ardaloedd Chwarae Aml-Ddefnydd (MUGA) yng Nghapel Hendre, Llandybie a Phenygroes yn aros yn ddi-dâl at ddefnydd y cyhoedd.

755.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 7.00 yh.